# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 5 - Strategaeth Ymgysylltu | 11 |
| Atodiad 1 | 15 |
| Atodiad 2 | 17 |
| 6 - Cynnig arbedion C25 - diddymu darpariaeth cefnogaeth TG y tu allan i oriau craidd y Cyngor | 18 |
| 7 - Caffael Ynni yn Rhatach | 20 |
| 8 - Trefniadau Craffu Arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd | 26 |

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.30AM, DYDD IAU, 15 IONAWR, 2015**
**10.30AM, THURSDAY, 15 JANUARY, 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA,**
**SWYDDFA'R CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**
**STRYD Y JÊL / SHIREHALL STREET,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 9/01/15)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors

Elwyn Edwards
Aled Evans
Sian Gwenllian
Annwen Hughes
Dyfrig Jones
Michael Sol Owen
Gethin Glyn Williams
John Wyn Williams
R.H.Wyn Williams

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Trevor Edwards
W.Roy Owen
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors

Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Aelodau eraill a wahoddir / Other invited members
Y Cynghorydd / Councillor Ioan Thomas – eitemau / items 5 a / and 6
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – eitem / item 7
Y Cynghorydd / Councillor Dyfrig Siencyn (yn dirprwyo ar ran y Cynghorydd Dyfed Edwards / deputising on behalf of Councillor Dyfed Edwards) – eitem / item 8

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**5. STRATEGAETH YMGYSYLLTU**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer (ynghlwm).

*10.35am – 11.10am*

**6. CYNNIG ARBEDION C25 – DIDDYMU DARPARIAETH CEFNOGAETH TG Y TU ALLAN I ORIAU CRAIDD Y CYNGOR**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer (ynghlwm).

*11.10am – 11.40am*

**7. CAFFAEL YNNI YN RHATACH**

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau (ynghlwm).

*11.40am – 12.10pm*

## 8. TREFNIADAU CRAFFU ARFAETHEDIG Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL AR Y CYD

Ystyried adroddiad ar y cyd gan Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd a Môn, Rheolydd Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd a Swyddog Craffu Cyngor Sir Ynys Môn (ynghlwm).

*12.10pm – 12.40pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 13.11.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Trevor Edwards, Aled Evans, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, June Marshall, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Eirwyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:-**
Y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:-**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau
Y Cynghorydd Peter Read, Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion
Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards a Jason Humphreys.

Croesawyd y Cynghorwyr Annwen Hughes a W.Roy Owen i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol yng Nghynnig Arbed Effeithlonrwydd A5 – Addysg Feithrin (dan eitem 7 ar y rhaglen), oherwydd bod ei wraig yn gweithio i'r Mudiad Ysgolion Meithrin, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cynnig hwn.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2014 fel rhai cywir.

Gan gyfeirio at eitemau 3 a 4, nododd y Cadeirydd y byddai'r Cyfarfod Paratoi nesaf yn ystyried sut i dderbyn gwybodaeth o hyn allan ar Gwynedd Amdani a Meddylfryd Systemau.

## 3. YMCHWILIAD CRAFFU AGENDA WLEDIG
**Aelod Cabinet: y Cynghorydd Dyfed Edwards**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd yn amlygu'r camau a gymerwyd ganddo hyd yma i ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Craffu.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Yr hyn sy'n bosib' ei wneud o fewn y cyfundrefnau presennol a beth sydd angen ei ddiwygio yn y Cynllun Strategol.
- Y gwaith lobïo er ceisio dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol.
- Tlodi cudd a'r ffaith bod y mesurau cenedlaethol yn cydnabod dwysedd tlodi'n unig.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd hyd yma a derbyn adroddiad pellach gan yr Arweinydd ym mis Ionawr 2015 ar yr argymhellion sydd yn berthnasol i waith y Cyngor.**

**4. YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

(A) Cyflwynwyd - adroddiad yr Aelod Cabinet Economi yn ymateb i gwestiynau penodol yn gysylltiedig â'r argymhellion.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet Economi a'r Pennaeth Strategol a Gwella i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Biwrocratiaeth a'r risg o gynyddu llwyth gwaith y staff.
- Mesur llwyddiant ar y lefel uchaf.
- Yr her o sefydlu canlyniadau allweddol ar gyfer y cyfnod 2014-17.
- Pa mor heriol yw'r amcanion?
- Bod yn fwy uchelgeisiol a chaffael o siroedd cyfagos.
- Y nod o greu un drefn ac un tîm i gyflawni'r gwaith ar draws y Cyngor.
- Y gadwyn fwyd o ran cyflenwi cig i ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac ystyried y mater eto ymhellach ymlaen.**

**5. CYNIGION ARBED EFFEITHLONRWYDD**

(A) Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion yn cyflwyno argymhellion y gweithgor i'r pwyllgor craffu hwn, ynghyd â chopi o becyn y Gweithdai Aelodau, er gwybodaeth. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chytuno unrhyw argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet wneud ei benderfyniad ar 16 Rhagfyr.

(B) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau ar gynnwys pecyn y Gweithdai Aelodau. Ymatebodd y Prif Weithredwr i gwestiynau ynglŷn â balansau ysgolion ynghyd â'r cynigion arbed a ganlyn:-

- HAM4 (Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol). Eglurodd y Prif Weithredwr mai rhan gyntaf y cynllun yn unig oedd gerbron ar hyn o bryd a chytunodd i anfon yr wybodaeth fanwl at yr aelod.
- C23 (Ailstrwythuro Archwilio Mewnol).
- RH2 (Cyfrif Llif / Cyflymdra (Uned Traffig))
- C1 (Ail-strwythuro refeniw)

Mewn ymateb i ymholiad pellach, eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r 197 o gynigion arbed yn arwain at golli 166 o swyddi, a bod yna 34 o gynlluniau eraill i'w hychwanegu, nad oedd eu goblygiadau o safbwynt colli swyddi yn amlwg eto. Galwodd aelodau am ddadansoddiad manwl ar ddiwedd y broses o'r holl swyddi a gollir ynghyd â natur y diswyddiadau.

(C) Ystyriwyd argymhellion y gweithgor, gan roi sylw yn gyntaf i'r cynigion sydd i'w gwireddu yn 2015/16 (a amlygwyd mewn llwyd yn yr adroddiad). Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegodd Cadeirydd y Gweithgor ei ddymuniad i ychwanegu y cynigion P6 (Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd) a P7 (Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched Bangor) i'r rhestr o gynigion lle mae angen craffu pellach i ddeall yr effaith ar bobl Gwynedd. Nododd y Pennaeth Strategol a Gwella bod y Pennaeth Plant wedi adrodd bod yna risg ond bod y risg yn un cymharol isel. Nodwyd mai un elfen o waith y llochesi oedd dan sylw a byddai cyfrifoldebau statudol y Cyngor yn dal i gael eu cyflawni. Mynegwyd pryder y gallai gweithredu'r cynigion hyn arwain at fwy o gost oherwydd y byddai'n cynyddu atebolrwydd y Cyngor.
- A5 (Addysg Feithrin). Nodwyd na chytunid â'r geiriad "*Opsiynau a gwasanaeth ehangach i rieni gan roi dewis iddynt o roi eu plant mewn ysgol neu mewn cylch meithrin*" yn y tabl "Effaith ar Bobl Gwynedd" oherwydd, o bosib', na fyddai yna gylchoedd meithrin mewn rhai ardaloedd gwledig o'r sir. Nododd y Cadeirydd mai pwrpas yr argymhelliad oedd ceisio mwy o eglurder ar hyn.

**PENDERFYNWYD cyflwyno'r argymhellion a ganlyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad ar 16 Rhagfyr, ynghyd â'r ddau fater ychwanegol a godwyd gan Gadeirydd y Gweithgor Craffu Arbedion:-**

| **Cyf** | **Teitl y cynnig** | **Argymhelliad** |
|---|---|---|
| **DaCh4** | **Cwtogi cyllideb cyhoeddusrwydd Cofrestru Etholwyr** | **Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar ein gallu i sicrhau dyletswydd statudol i gofrestru etholwyr.** |
| **SaG6** | **Ymchwil a Dadansoddeg** | **Gweithgor yn nodi y dylid dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir ac ystyried llunio achos busnes i gadw'r uned fel y mae hi.** |
| **C25** | **Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau** | **Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu.** |
| **OED** | **Cynigion ym maes Oedolion** | **Angen sicrhau amserlen ar gyfer y cynigion a'r angen i gael cynlluniau prosiect cadarn er mwyn sicrhau y byddwn yn gwireddu'r cynigion, ac y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol at yr angen hwnnw.** |
| **OED13** | **Addasu cytundebau darparwyr** | **Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.** |

| Cyf | Teitl y cynnig | Argymhelliad |
|---|---|---|
| **Rh9** | **Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:**<br>- **Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?**<br>- **Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd?** |
| **Rh11, Rh12 a Rh27** | **Lleihad o 10% yng nghyllidebau Gwarchod y Cyhoedd (3 cam)** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y cynigion ar ôl dechrau gwireddu.** |
| **Rh16** | **Hysbysebu ceisiadau cynllunio yn y wasg** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael gwell eglurder am yr effaith potensial y gallai'r cynnig ei gael ar y broses ddemocrataidd.** |
| **PB1** | **Caffael** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a chadw'r budd yn lleol.** |
| **PB24** | **Trefn Wahanol o Newid Lampau** | **Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn "bulk change" fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf.** |
| **A5** | **Addysg Feithrin** | **Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.** |

**Materion ychwanegol**

| | | |
|---|---|---|
| **P6** | **Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd** | **Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015.** |
| **P7** | **Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor** | **Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt graffu'r effaith ymhellach, ond ar y ddealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015.** |

| | | |
|---|---|---|

**Cynigion i'w gwireddu yn 2015/16**

**6. YMCHWILIAD CRAFFU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL - CYDWEITHIO**

Gofynnwyd i'r pwyllgor gadarnhau aelodaeth y Grŵp Ymchwiliad Craffu.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r aelodaeth a ganlyn ar gyfer y Grŵp Ymchwiliad Craffu:-**

**Cadeirydd y pwyllgor hwn, y Cynghorydd Dyfrig Jones, ynghyd â'r Cynghorwyr Trevor Edwards ac Eirwyn Williams.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.20pm.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 15 Ionawr 2015 |
| **TEITL** | Strategaeth Ymgysylltu |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Ioan Thomas |
| | |

**1. Cefndir a chyd-destun**

1.1 Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi gofyn i mi baratoi adroddiad ar y Strategaeth Ymgysylltu yn dilyn y ffaith i mi nodi fod angen ystyried a fyddwn yn gallu cyflawni'r holl faterion a amlygwyd yn y Strategaeth Ymgysylltu o fewn yr amserlen wreiddiol.

1.2 Gofynnwyd i mi ateb cwestiynau penodol ac fe nodaf yr atebion i'r cwestiynau hynny isod.

**2. Cwestiynau gan y Pwyllgor Craffu**

**2.1 A oes eglurder ynglŷn â maint y gofynion sydd ar y Cyngor er mwyn gwireddu'r Strategaeth Ymgysylltu?**

'Roedd y Strategaeth Ymgysylltu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 5 Medi 2013 yn awgrymu rhaglen waith fyddai modd ei gyflawni gyda'r adnodd oedd ar gael (sef un swyddog i bob pwrpas).

Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn y cyfeiriad isod a'r rhaglen waith wreiddiol a fabwysiadwyd i'w weld yn Atodiad 1.

https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2013-14/Pwyllgor Craffu Corfforaethol_Corporate Scrutiny Committee/2013-09-05

Gofynnwyd cwestiwn tebyg i mi gan y Pwyllgor Craffu bryd hynny a dyfynnaf yr ateb a roddwyd bryd hynny isod

**"A yw'r uchelgais ar gyfer gwella ymgysylltu bellach yn realistig yn wyneb yr her ariannol newydd y mae'r Cyngor yn ei wynebu ?**

*4.1 Mae'n wir nodi yn wyneb y cyfyngiadau ariannol fydd arnom yn y dyfodol, y bydd yn rhaid i ni ystyried yn ddwys beth yn union o fewn y Cynllun Strategol yr ydym yn gallu parhau i'w gyflawni.*

4.2 *Wrth gwrs, ar un ystyr, mewn amgylchiadau o'r fath gellid dadlau fod ymgysylltu effeithiol yn fwy pwysig fyth er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn gyda hynny o adnoddau fydd gennym gan adlewyrchu blaenoriaethau ein pobl.*

4.3 *Nid yw'r Cabinet eto wedi ystyried pa gynlluniau o fewn y Cynllun Strategol fydd yn rhaid eu hail flaenoriaethu ond byddaf yn awgrymu y dylid cadw'r project ymgysylltu ond gan geisio ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd.*

4.4 *Ar ôl trafod gyda swyddogion rhagwelaf y bydd modd gwneud hynny gydag elfen sylweddol o'r strategaeth ond os bydd angen adnodd pellach ar gyfer unrhyw agwedd gellir ystyried hynny yng ngoleuni asesiad o'r budd fyddai'n deillio o unrhyw gynnig."*

Yn hynny o beth felly 'roedd y strategaeth a'r amserlen cyflawni wedi cael ei deilwrio i'r adnodd oedd ar gael.

Fodd bynnag, ar ôl llunio'r strategaeth daeth yn amlwg fod angen cyflawni darn arall anferth o ymgysylltu er mwyn paratoi'r tir ar gyfer datrys yr her ariannol sydd o'n blaenau - sef cynllun Her Gwynedd.

Gan fod yr angen am hwnnw yn greiddiol i allu'r Cyngor i yrru'r rhaglen arbedion yn ei flaen (ac felly yn greiddiol i holl hyfywdra'r Cyngor) bu'n rhaid gwyro'r adnodd sydd ar gael ar gyfer y Strategaeth Ymgysylltu i gyflawni'r gwaith hwnnw yn y lle cyntaf.

Dyna yw'r rheswm pam fod yna bryder wedi ei fynegi am ein gallu i gyflawni'r hyn y rhoddwyd addewid ar ei gyfer yn y flwyddyn gyfredol – sef y ffaith fod yna gynllun lawer pwysicach wedi gorfod cael ei gyflawni cyn symud ymlaen i gyflawni'r materion hynny oedd yn y Strategaeth Ymgysylltu wreiddiol.

Mae hynny'n naturiol wrth gwrs. Dogfen fyw ddylai Cynllun Strategol y Cyngor fod – nid dogfen sy'n cael ei sefydlu unwaith ac yna'n ddi-newid ta waeth beth yw'r newid mewn amgylchiadau.

**2.2 A ellir gwireddu gofynion y Strategaeth o fewn yr amserlen a'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd?**

Fel y nodir uchod mae yna amheuaeth bellach oherwydd bod sialens cyflwyno Her Gwynedd wedi cymryd gymaint o amser na fydd modd cyflawni rhai elfennau o'r Strategaeth wreiddiol yn unol â'r amserlen wreiddiol.

Mae'r Grŵp Project sydd gennym yn asesu ar hyn o bryd beth y gellir ei gyflawni eleni o gofio gofynion Her Gwynedd a sut y bydd yn rhaid addasu'r amserlen er mwyn dygymod a hynny.

Nid oes bwriad i ddileu unrhyw beth o'r Strategaeth - yr unig fwriad yw ystyried a fydd yn rhaid ail lunio'r rhaglen waith i gyd-fynd gyda'r adnodd fydd ar gael.

**2.3 Sut mae mesur llwyddiant y Strategaeth Ymgysylltu?**

'Roedd y Strategaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Craffu yn amlygu sut y byddem yn mesur llwyddiant y Strategaeth. Dyfynnaf y rhan berthnasol o'r strategaeth yn atodiad 2.

**2.4 Pa arweiniad a/neu gymorth sydd ar gael i reolwyr a staff y Cyngor yng nghyd-destun ymgysylltu?**

Un o'r ffrydiau gwaith a amlygir yn y Strategaeth yw hynny. Fel y gwelir o'r amserlen a nodir yn Atodiad 1 (ffrydiau gwaith 2 a 3) - y bwriad oedd i hynny fod yn ei le erbyn dechrau Ebrill y flwyddyn ddiwethaf ac i'r Coleg Uwch reolwyr fod yn cael cyflwyniad arno erbyn Gorffennaf.

Fel y nodir uchod, oherwydd gofynion Her Gwynedd nid yw hyn wedi digwydd. Mae'r Grŵp project yn ystyried ar hyn o bryd beth yw'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni hynny.

Mae *Ymgysylltu* yn bennawd fodd bynnag o fewn y cwrs Rheoli Newid a ddarperir ar gyfer rheolwyr. Mae cymorth ymarferol ar gael i reolwyr a phenaethiaid ar faterion ymgysylltu naill ai drwy'r Uned Gyfathrebu neu Strategol a Gwella. Mae'r gofyn am gyngor neu gymorth ymarferol yn cynyddu a swyddogion yn gweithio ar brosiectau mawr megis Hybu Ailgylchu neu brosiectau llai megis y newidiadau diweddar yng Nghanolfan Y Gwystl.

**2.5 Pa mor weithredol yw'r Llawlyfr Ymgysylltu ar draws y Cyngor?**

Fel y nodir uchod, gan nad ydym eto wedi ei ledaenu'n eang nid yw'n llwyr weithredol o fewn y Cyngor.
Ond, mae'r *Llawlyfr* wedi ei ddosbarthu i rai grwpiau yn y Cyngor megis mynychwyr y Cwrs Rheoli Newid neu mewn digwyddiadau yn ymwneud ag ymgysylltu.. Caiff ei gynnig hefyd i swyddogion sy'n gwneud ymholiadau/cais am gymorth i ymgysylltu. Mae'r *Llawlyfr* hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

**2.6 A yw'r Fforwm Ymgysylltu mewn lle er mwyn rhannu arfer dda, a dysgu o brofiadau ymgysylltu?**

Na – eto am y rhesymau uchod.

**2.7 A yw'r Porth Ymgysylltu wedi i sefydlu ar wefan y Cyngor? Os ydyw, faint o ddefnydd sydd wedi ei wneud ohono, ac os nad ydyw, beth yw'r rhesymau am hynny ?**

Na – eto am y rhesymau uchod. Ond, mae deunyddiau ac ymarfer da ymgysylltu ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor. Bwriedir ychwanegu at y deunyddiau hynny yn y dyfodol agos pan fydd gwefan newydd y Cyngor yn weithredol a marchnata'r deunyddiau yn ehangach i adrannau yn sgil hynny.

**2.8 Beth ydych chi'n ei weld fel rôl Aelodau Cabinet / aelodau rheng flaen yn y trefniadau ymgysylltu newydd?**

Mae'n gynamserol i ddod i gasgliad ar hynny. Yn amlwg mae yna rôl ond mae'n bwysig ein bod yn sefydlu consensws ynglŷn â'r rôl hynny yn hytrach na chyfleu barn un person.

Mae yna ddarn o waith yn y Strategaeth (sef Ffrwd gwaith 8) sydd wedi ei lunio i sefydlu beth yw'r ymdeimlad ynglŷn â rôl aelodau rheng flaen yn y trefniadau ymgysylltu.

Erbyn hyn mae yna waith wedi cael ei wneud yn y maes yma gyda Grŵp Tasg ar y cyd o aelodau a swyddogion wedi dadansoddi'r mater ac wedi adnabod 11 o feysydd lle mae angen gwella yn amrywio o feysydd eang cymhleth fel cynllunio newid a rheoli disgwyliadau i faterion llawer llai a mwy gweithredol fel iaith syml a manylion cyswllt cywir.

Bydd y Grŵp Tasg yn cyfarfod eto yn fuan yn y flwyddyn newydd i lunio rhaglen waith a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn dilyn hynny fe fydd yna well deunydd gennym ar gyfer diffinio beth yn union yw rôl aelodau rheng flaen yn y broses o ymgysylltu.

**2.9 Pa gymorth a/neu arweiniad sydd ar gael i aelodau etholedig yng nghyd-destun ymgysylltu?**

Mae'n gynamserol i nodi hynny. Bydd hyn yn ddibynnol ar ganlyniad Ffrwd gwaith 8 y nodir yn 2.8 uchod.

Atodiad 1

## Rhaglen waith gychwynnol ar gyfer cyflawni amcanion y Strategaeth

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2013/14 | | | | | | | | | | | 2014/15 | | | | | | | | | | | | 2015/16 | | | | | | |
| | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 |
| **1 Y Strategaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.1 Cwblhau'r strategaeth | ■ | | | | | | | | | | | | | Projectau a gweithgareddau eraill yn esblygu yn dilyn y profiadau fydd yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Llywodraethu Ymgysylltu | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.2 Cyflwyno'r strategaeth i'r Tim Rheoli | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.3 Cyflwyno'r Strategaeth i'r Panel | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.4 Cyfarfod cyntaf y Bwrdd Llywodraethu (cysgodol) | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.5 Cabinet yn mabwysiadu'r strategaeth | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.6 Sefydlu gwaelodlin mesurau | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.7 Cyflwyno i'r Grwp Rheoli | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1.8 Cyflwyno i'r Coleg Uwch Reolwyr | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **2 Y Llawlyfr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.1 Cwblhau'r Llawlyfr | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.2 Cyflwyno i'r Grwp Rheoli | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.3 Cyflwyno i'r Coleg Uwch Reolwyr & Arweinwyr Project | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2.4 Asesu budd y llawlyfr yng ngoleuni profiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | |
| **3 Adnoddau ar gyfer Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.1 Adnodd cymorth i rai sydd eisiau ymgysylltu ar gael ar y mewnrwyd | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3.2 Adolygu digonolrwydd y cymorth | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **4 Ymestyn defnydd cyfryngau modern** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.1 Papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli ar y gwersi a ddysgwyd ac anghenion ar gyfer y dyfodol | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.2 Cynigion i'r Tim Rheoli | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4.3 Cynigion i'r Cabinet | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

Atodiad 1

| | | | | | 2013/14 | | | | | | | | | | | 2014/15 | | | | | | | | | | | | 2015/16 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 1 | 2 | 3 |
| **5 Gwella Sgiliau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.1 Datblygu Rhaglen gwella Sgiliau | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.2 Arbrawf peilot | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.3 Cynnal y sesiynau | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5.4 Gwerthuso effaith yr hyfforddiant | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **6 Sicrhau ansawdd prosiectau allweddol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.1 Adnabod y prosiectau allweddol | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.2 Cynnal asesiad ffurfiol o sefyllfa ymgysylltu y projectau allweddol | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.3 Cynnwys arweiniad ar ymgysylltu yn y llawlyfr projectau newydd | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.4 Cynnal hyfforddiant i swyddogion allweddol | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6.5 Monitro effeithiolrwydd y rhaglenni ymgysylltu yn y projectau allweddol | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **7 Fforwm Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.1 Trefniadau, aelodaeth a strwythur wedi ei gytuno | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.2 Cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7.3 Asesiad o effeithiorwydd y trefniadau | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | |
| **8 Anghenion aelodau ar gyfer Ymgysylltu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8.1 Diffinio beth yw rol aelodau yn y broses ymgysylltu | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8.2 Cynnal deialog gydag aelodau ar yr hyn sydd ei angen arnynt i fod yn rhan allweddol o ymsgysylltu | | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **9 Ymgysylltu mewn digwyddiadau mawr** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9.1 Asesu trefniadau presennol ac adnabod a oes problem | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9.2 Cytuno ar drefniadau diwygiedig os oes eu hangen | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

## 6 Sut fyddwn ni'n gwybod os byddwn wedi llwyddo ?

Os mai bwriad ymgysylltu yw sicrhau ein bod yn deall ein gilydd yn well a thrwy hynny bod penderfyniadau'r Cyngor yn cymryd yr hyn sydd o bwys i bobl Gwynedd i ystyriaeth, yr hyn y dylem fod yn ei fesur felly yw

- Ydi trigolion Gwynedd a ninnau yn deall ein gilydd yn well
- A ydym wedi sefydlu'r hyn sydd o bwys i holl drigolion Gwynedd
- A yw ein penderfyniadau yn cael eu dylanwadu gan yr adborth hwnnw

Y broblem yw bod y materion yma yn anodd iawn i'w mesur, yn enwedig y ddau gyntaf ac anodd yw dychmygu sut y gellid eu mesur go iawn.

Yn y cyfamser, awgrymir y dylid mesur llwyddiant y strategaeth drwy fesur y canlynol -

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau;

- Faint o drigolion Gwynedd sy'n cytuno ei fod yn bosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol;

- Faint o drigolion Gwynedd sydd wedi cymryd rhan er mwy dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd o fewn y sir;

- Faint o'r ymarferion ymgysylltu sydd wedi arwain at ddylanwadu ar y cynllun terfynol;

- Beth yw ymdeimlad aelodau etholedig yn eu cyfanrwydd o'r trefniadau ymgysylltu ar ddiwedd y cyfnod.

O sefydlu'r darlun cyfansawdd a geir o'r 5 mesur uchod fe ddylem fedru asesu a yw ein hymgais i wella ymgysylltu yn llwyddo neu beidio.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **15fed Ionawr, 2015** |
| **PWNC** | **Cynnig arbedion C25 – diddymu darpariaeth cefnogaeth TG y tu allan i oriau craidd y Cyngor** |
| **PWRPAS** | **I wyntyllu risgiau sydd yng nghlwm gwireddu'r cynllun gall gael effaith angheuol ar rai carfannau o bobl Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas (ward Menai – Caernarfon)** |

Cefndir

1. Mae'r Adran Cyllid wedi rhoi gerbron nifer o gynlluniau arbedion. Un o'r rhain yw "C25 - Dod a'r gwasanaeth cefnogi tu allan i oriau i ben" sy'n cyflwyno arbedion o £39,450 i'w gwireddu'n llawn yn 2015/16.

2. Mae disgrifiad o'r cynllun yma fel a ganlyn:

   "Mae'r gwasanaeth TG yn gweithredu cynllun cefnogi y tu allan i oriau craidd y swyddfa er mwyn cefnogi gwasanaethau sydd a dibyniaeth ar y gwasanaethau hyn, megis Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a gweithwyr Gofal. Mae tri aelod gydag arbenigaeth gwahanol ar alwad drwy gydol yr amser, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau statudol. Golyga hyn bod modd cael cymorth i broblem technegol 24-7-365."

3. Nid yw cyflwyno'r cynllun arbediad yma heb ei risgiau, ac mae'n rhaid nodi na fyddai cefnogaeth ar gael i unrhyw weithgaredd TG oddi allan i oriau craidd y Cyngor. Mae hyn yn 18:00 – 08:00 ar ddyddiau'r wythnos, o 18:00 nos Wener i 08:00 fore Llun ar benwythnos ac yn ymestyn i 18:00 nos Iau i 08:00 fore Mawrth ar wyliau'r Pasg.

4. Er bod swyddfeydd y Cyngor ar gau ar yr amseroedd uchod, mae amryw o swyddogion y Cyngor yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd ac yn ddibynnol ar systemau ac isadeiledd TG. Byddai colli'r ddarpariaeth TG oherwydd nam systemol yn gwahaniaethu o anghyfleus i argyfyngol.

5. Er yn ddibynnol ar systemau TG, byddai colli'r gwasanaeth gyda'r nos, neu hyd yn oed am benwythnos cyfan i wasanaethau megis y Llyfrgelloedd a'r Canolfannau Hamdden yn anghyfleus, ond ni fyddai'n peryglu bywyd. Mae gweithdrefnau mewn lle i ymdopi a hyn, ond nid yw'n ddelfrydol a gallai olygu bod gwasanaeth i'r cyhoedd yn cael ei gyfyngu.

6. Gall colli'r systemau TG ar gyfer gwasanaethau Gofal fod yn llawer fwy difrifol. Mae'r timau sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn yn delio gyda phobl mewn sefyllfaoedd bregus sydd angen ymateb prydlon a gwybodus. Y sail ar gyfer hyn yw'r system sy'n eu cefnogi a gall ymateb i sefyllfa heb fynediad i'r wybodaeth

sydd yn y systemau beryglu lles y gweithwyr ac/neu cleiantau'r gwasanaeth.  Fe all hyn fod drwy wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth hanesyddol yn hytrach na gwybodaeth gyfredol a gall roi swyddogion y Cyngor mewn peryg gan fethu cael at wybodaeth am sefyllfa bygythiol e.e. bod preswylwyr a natur fygythiol neu bod perygl arall, megis ci treisgar.

7. Mae perfformiad y systemau gofal yn ddibynadwy, ac mae'r achlysuron ble mae namau wedi golygu nad yw'r system ar gael yn brin.  Fodd bynnag, er bod y tebygolrwydd o golli gwasanaeth yn brin, gall yr oblygiadau fod yn ddifrifol gan gyflwyno bygythiad i iechyd a lles staff a cleiantau'r Cyngor.  Mae'r sefyllfa'n gwaethygu dros gyfnod y penwythnos a gwyliau statudol a hwn yn mynd yn gyfnod hirach heb gefnogaeth.  Mae'n rhaid rhoi cysidraeth deg i hyn pan yn gwerthuso'r cynllun hwn.

| | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR CRAFFU | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 15.01.15 |
| TEITL YR EITEM | Caffael Ynni yn Rhatach |
| AELOD CABINET | Y Cynghorydd  Peredur Jenkins |

**CEFNDIR**

Yng nghyfarfod Medi 11eg 2014 cyflwynais adroddiad yn rhoi diweddariad o gynlluniau'r Cyngor am drefniant i gaffael ynni yn rhatach ar gyfer cymunedau'r sir.

Yn yr adroddiad hwnnw esboniais mai'r opsiwn mwyaf cost effeithiol i'r Cyngor fyddai ymuno a Chyd Cymru.  Ond ar y pryd nid oedd y panel prosiect yn ddigon hyderus fod eu cynlluniau yn ddigon aeddfed i'w argymell i drigolion Gwynedd

Erbyn heddiw,  yn dilyn mwy o ymgynghori a sicrwydd ynglŷn a chynllun Cyd Cymru, rwyf o'r farn fod y cynllun o werth i drigolion Gwynedd ac rwyf wedi awdurdodi swyddogion i'w gefnogi trwy ymuno a Cham 3.  Y llynedd, trwy newid cyflenwr, helpodd Cyd Cymru aelwydydd ar draws Cymru i arbed £185 y flwyddyn ar gyfartaledd ar eu biliau ynni

**TROSOLWG**

Cynllun newid cyflenwyr ynni drwy gydfargeinio yw Cyd Cymru sydd wedi'i ddatblygu i gynnig cyfle i bobl yng Nghymru i arbed arian drwy ddod at ei gilydd i brynu tanwydd 'mewn swmp'.

Lansiwyd Cyd Cymru yn ystod 2013 ac fe'i datblygwyd yn wreiddiol gan Gyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, gyda chefnogaeth gan y Gronfa Cydweithio Ranbarthol ac mae'n agored i bawb yng Nghymru.

Gan mai'r mwyaf o bobl sy'n cymryd rhan, y gorau fydd y fargen sy'n debygol.  Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau bod pawb ar draws Cymru mewn sefyllfa i ymuno. Mae Bwrdd Prosiect Cyd Cymru wedi elwa o fewnbwn gan gynrychiolwyr o Grŵp Budd-ddeiliaid Cymru gyfan.  Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r gwaith a wnaed hyd yma a beth fydd y camau nesaf, rwyf wedi cynnwys y canlynol, sydd yn grynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Cyd Cymru am y cynllun.

***Beth yw Newid Cyflenwr Ynni drwy Gydfargeinio?***

Mae'r syniad sydd y tu ôl i newid cyflenwr ynni drwy gydfargeinio yn debyg i brynu nwyddau 'mewn swmp' er mwyn cael gwell pris. Fodd bynnag, mewn cynllun newid cyflenwyr drwy gydfargeinio, bydd y rhai sydd â diddordeb mewn cael gwell bargen yn dod at ei gilydd i ffurfio 'cydweithfa' cyn mynd at y cyflenwyr ynni. Po fwyaf yw nifer y bobl sy'n gysylltiedig, y mwyaf deniadol mae'r grŵp cwsmeriaid yn debygol o fod i'r cyflenwyr ynni.

***Sut mae'n gweithio?***

Mae'r ffordd y mae'n gweithio'n hawdd. Mae pum cam allweddol.

- **Cofrestru:** Y cam cyntaf yw cofrestru diddordeb, gan ddarparu cymaint o wybodaeth ynglŷn â defnydd ynni'r cartref ag sy'n bosib. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan ein partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ac 'energyhelpline' i reoli'r broses newid cyflenwyr a negodi bargen gyda'r cyflenwyr ynni. Dylai cartrefi gofrestru ar lein yn **www.cydcymru-energy.com**. Rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn addas i rai unigolion ac mae rhif llinell gymorth ar gael hefyd i gofrestru ar 0800 0935902. Dylai preswylwyr gael bil ynni diweddar wrth law.

- **Ffurfio cydweithfa**:
  Ar ôl i'r cyfnod cofrestru gau, bydd yr holl ddata gan y rhai a gofrestrodd yn cael ei goladu a'i gyflwyno i arwerthiant ynni.

- **Arwerthiant Ynni:**
  Yna, bydd arwerthiant ynni yn digwydd gydag amrywiaeth o gwmnïau ynni yn cynnig eu prisiau gorau i'r bobl sydd wedi cofrestru eu diddordeb.

- **Cynnig tariff newydd:** Gwneir cynnig personol i'r rhai sydd wedi cofrestru a bydd yr arbedion a ragwelir yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gan unigolion yn y cam cofrestru. Bydd pobl yn gallu gweld hefyd sut mae'r cynnig hwn yn cymharu â'r tariffau yn y farchnad bresennol. Nid oes cost o gwbl ac nid oes dim ymrwymiad i newid cyflenwr/cyflenwyr. Fel arfer, bydd y cyfnod ble y gellir derbyn y cynnig ('newid drosodd') yn agored am bythefnos.

- **Penderfynwch chi!** Os byddwch yn gwneud penderfyniad i dderbyn y cynnig ar ôl i'r cynnig unigol gael ei wneud, yna bydd cymorth ar gael i dderbyn a newid drosodd. I'r aelwydydd hynny sydd â mesuryddion rhagdalu, bydd cyflenwr presennol y preswylwyr yn rhoi cyngor ynglŷn â fydd y credyd/y ddyled bresennol yn gallu cael ei throsglwyddo i'r cyflenwr newydd (yn gyffredinol gall dyled hyd at £500 gael ei throsglwyddo). Petai unrhyw un yn penderfynu peidio

â derbyn, ac nid oes rheidrwydd derbyn, bydd gwybodaeth ar gael ynghylch y cyfle nesaf i newid drosodd.

**Cefndir y Cynllun**

Yn gynnar yn 2013, gwnaeth Cynghorau Dinas Caerdydd a Bro Morgannwg gais llwyddiannus i Gronfa Cydweithio Ranbarthol Llywodraeth Cymru am gefnogaeth i ddatblygu cynllun newid cyflenwyr ynni drwy gydfargeinio i Gymru.

Daeth Bwrdd Prosiect Cyd Cymru â swyddogion at ei gilydd o Gaerdydd a Bro Morgannwg i ddatblygu'r gwaith. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn agored ac yn briodol i bobl ar draws Cymru gyfan, sefydlwyd grŵp Budd-ddeiliaid Cymru Gyfan a oedd yn cynnwys sefydliadau â diddordeb mewn newid darparwyr drwy gydfargeinio. Mae'r Grŵp Budd-ddeiliaid Cymru Gyfan wedi monitro datblygiad Cyd Cymru ac wedi rhoi mewnbwn yng ngwahanol gyfnodau'r datblygiad.

**Sut y darperir Cyd Cymru?**

Mae cynllun newid darparwyr ynni drwy gydfargeinio Cyngor Caerdydd a Bro Morgannwg yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru.

Menter gymdeithasol gyda Sefydliad Elusennol yw'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn rhoi cyngor diduedd, cywir ac annibynnol i gartrefi, cymunedau a sefydliadau ar y dulliau o leihau allyriadau carbon, lleihau biliau ynni, defnyddio dŵr yn fwy cynaliadwy a gyrru'n fwy craff.

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni'n gweithio gyda llywodraethau, awdurdodau lleol, cymunedau, sefydliadau'r trydydd sector a busnesau. Ymysg eu gweithgareddau maent yn:

- Darparu neu reoli rhaglenni'r llywodraeth
- Cynnal profion technoleg carbon isel
- Cyflwyno ardystiadau a rhoi sicrhad i fusnesau a nwyddau traul
- Datblygu modelau a theclynnau i roi mwy o ddealltwriaeth o effeithlonrwydd ynni.

Bydd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cefnogi Cyd Cymru i ddarparu gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd a gwelliannau i hyrwyddo'r cynllun. Maent wedi datblygu cynllun gweithredu manwl hyd at fis Mawrth 2015 gan gynnwys caffael y darparwr newid drosodd, darparu cynllun ymgysylltu lleol a methodoleg i arfarnu'r prosiect.

Bydd y gefnogaeth a geir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn sicrhau bod negeseuon arbed costau a newid ymddygiad yn cael eu cyfuno gyda chyngor arbed ynni a'u cyfeirio at gynlluniau sy'n bodoli megis Nyth a'r Gwasanaeth Cyngor Arbed Ynni er mwyn gwneud y mwyaf o'r arbedion posib i breswylwyr. Ond yn fwyaf penodol, bydd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn dod â gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd ynglŷn â'r farchnad ynni a'r modd y dylid ymgysylltu â chwsmeriaid.

Y pethau allweddol y gellir eu cyflawni gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yw:

- caffael y darparwr newid drosodd, a enwir yn awr yn 'energyhelpline'
- ymgymryd ag amryw o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd a'r Fro er mwyn hyrwyddo'r cynllun i breswylwyr bregus yn benodol
- gweithio gyda phartneriaid megis cymdeithasau tai, elusennau ac ati yng Nghaerdydd a'r Fro i sicrhau ei fod yn gallu cefnogi a chyrraedd eu preswylwyr
- dal a chydlynu'r data ar gyfer yr arfarniad prosiect terfynol.

Yn ystod 2012-13, mynychodd Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru dros 400 o ddigwyddiadau ar draws amrywiaeth o brosiectau i roi cyngor ar arbed ynni a chefnogaeth i'r cyhoedd. Bydd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn rheoli tîm o dri swyddog ymgysylltu penodol ar gyfer y cynllun Cyd Cymru a bydd y swyddogion hyn yn canolbwyntio ar weithgareddau allgymorth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg gan fod yr ardaloedd hyn wedi'u cynnwys yn y bid ariannu a gyflwynwyd gan y Cynghorau i'r gronfa cydweithio ranbarthol. Fodd bynnag, bydd eu harbenigedd a'u cyngor yn cael eu rhannu gyda phawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cyd Cymru drwy Gymru gyfan.

**Y rhesymeg dros Ddewis Asiant Newid Cyflenwr**

Mae'n bwysig dangos y gwerth gorau wrth gaffael asiant newid cyflenwr a sicrhau lefel uchel o wasanaeth cwsmer. Gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, rydym wedi datblygu ystod o feini prawf arfarnu i'r asiant newid cyflenwr Cyd Cymru. Ym mis Medi 2013, cafodd tendr ei redeg ar Sell2Wales i gael asiant newid cyflenwr a'r cynigydd llwyddiannus oedd 'energyhelpline'.

Mae llawer o'r cwestiynau cyffredinol ynglŷn â newid cyflenwr wedi'u cynnwys yn rheoliadau Ofgem, er enghraifft:

- Gall cwsmeriaid safonol a chwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu gyda dyledion hyd at £500 newid cyflenwr (Protocol Aseinio Dyledion Ofgem)
- Rhaid i gyflenwyr ddarparu gwybodaeth am filiau cwsmeriaid yn dangos y defnydd a wnaed yn ystod y cyfnod cyfatebol y flwyddyn ddiwethaf, y defnydd a wnaed dros y 12 mis blaenorol a rhagamcan enghreifftiol o'r costau am y 12 mis i ddod gan ddefnyddio'r data hwn.

**Dewis yr Asiant Newid Cyflenwr**

Gan weithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, gwnaethom ryddhau tendr i gaffael asiant newid cyflenwr ar gyfer Cyd Cymru. Yr ymgeisydd llwyddiannus oedd energyhelpline.

**Pwy fydd yn ymgymryd â'r negodi a'r newid drosodd?**

Ymgymerwyd ag ymarfer tendro ffurfiol ac mae contract wedi'i gosod hyd at fis Mawrth 2015 gyda 'energyhelpline'.

Yn ystod mis Hydref 2013, roedd Cyd Cymru wedi tendro am ddarparwr newid cyflenwyr i negodi bargeinion ynni a chefnogi cwsmeriaid drwy'r broses newid drosodd. Rydym wedi dewis bod yn bartner gyda 'energyhelpline'.

Yn 2012, rhedodd 'energyhelpline' yr ail newid drwy gydfargeinio yn y DU ac mae ganddynt brofiad o redeg nifer o newidiadau drwy gydfargeinio ers hynny, gan arbed miliynau o bunnau i gartrefi yn y DU.

Mae 'energyhelpline' wedi bod yn llwyddiannus yn newid drosodd cyflenwyr i:

- Switch and Save Bryste
- Big Wight Switch (Ynys Wyth)
- Peoples Power / Cheaper Energy Together
- Cydweithfa Rhanbarth Dinas Lerpwl
- Ymgyrchoedd brand eu hunain 'Huge Switch'
- Ynghyd â bod yn bartneriaid â nifer o gyflogwyr mawr yn y DU i redeg grwpiau cydfargeinio staff

Yn ychwanegol i'r cynnig newid drosodd drwy gydfargeinio, mae **'energyhelpline' yn darparu gwasanaeth am ddim i gymharu'r farchnad gyfan.** Golyga hyn fod pawb sy'n ymuno â'r newid drosodd yn derbyn cynnig ac ni fydd yn rhaid i bobl wneud cymhariaeth ar wahân o'r cynigion sy'n y farchnad ar y pryd.

Mae 'energyhelpline' wedi'u hachredu gan yr Ofgem *Confidence Code*, sy'n golygu bod sicrwydd pan gyflwynir cynigion a phrisiau i chi eu bod wedi'u cyfrifo a'u dangos yn gywir, yn deg ac yn ddiduedd.

Nid yw Cyd Cymru yn ariannu 'energyhelpline' a byddant yn adennill eu costau o'r ffioedd cyfeirio (neu gomisiwn) o ganlyniad i bob cwsmer sydd mewn gwirionedd yn newid drosodd i dariff newydd. Bydd 'energyhelpline' yn rhoi cyfran o hwn i Cyd Cymru. Bydd Cyd Cymru yn olrhain y nifer o bobl sydd wedi newid drosodd ym mhob ardal Awdurdodau Lleol ac o ganlyniad byddant yn gallu rhannu unrhyw arian a gynhyrchir yn gymesur gyda phob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bydd yr hyn sy'n ddyledus i bob

awdurdod lleol yn seiliedig ar y nifer o breswylwyr sydd wedi newid drosodd yn llwyddiannus yn ardal eu hawdurdod.  Os ydych yn cytuno i fod yn rhan o Cyd Cymru, rydych yn cytuno i rannu derbyniadau o'r Gronfa Gymunedol a neilltuir i'ch ardal awdurdod lleol fel y cytunwyd gyda Bwrdd Prosiect Cyd Cymru.  Telir cyfran o'r Gronfa Gymunedol i'r awdurdod lleol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

**Sut all pobl gofrestru gyda Chyd Cymru i newid cyflenwr drwy gydfargeinio?**

Dylai preswylwyr gofrestru ar-lein yn **www.cydcymru-energy.com**. Rydym yn ymwybodol nad yw hyn yn addas i rai unigolion ac mae rhif llinell gymorth hefyd ar gael i gofrestru ar 0800 0935902. Dylai preswylwyr gael bil ynni diweddar wrth law.  Rhoddir cefnogaeth i gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen unwaith y bydd y cofrestriad wedi agor yn llawn.

**Dyddiadau Allweddol**

**Bydd y cyfnod Cofrestru ar gyfer y trydydd Newid yn agor o'r**

2il Ionawr, 2015

**Bydd y cyfnod i dderbyn y cynnig (newid drosodd) yn agor o'r**

2il Mawrth – 16eg Mawrth 2015

**Rhagwelir y bydd y pedwerydd Newid yn rhedeg yn ddiweddarach yn 2015/16**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Corfforaethol |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 15 Ionawr 2015 |
| **TEITL** | Trefniadau Craffu Arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd |
| **AWDUR** | Adroddiad ar y cyd gan :-<br>• Anwen Davies (Uwch Reolydd Partneriaethau Gwynedd a Môn)<br>• Vera Jones (Rheolydd Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd)<br>• Geraint Wyn Roberts (Swyddog Craffu Cyngor Sir Ynys Môn) |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

- Bod y Pwyllgor yn cytuno i symud ymlaen ag Opsiwn B (h.y. sefydlu Panel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd) a gofyn wrth swyddogion i symud ymlaen gyda chwblhau trefniadau ymarferol i gynnwys materion fel trefniadau aelodaeth, trefniadau gweithredu a hyfforddi, rhestr o gyfarfodydd a lleoliad.

## 2.0 RHESWM

2.1 Mae nifer o ddogfennau ar gael ynglŷn â chraffu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl). Er enghraifft, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn 2013[1] a oedd yn ceisio casglu gwybodaeth ar y sefyllfa bresennol parthed craffu'r BGLl yng Nghymru yn cynnwys dealltwriaeth o hyd a lled craffu'r BGLl yn ogystal ag ysgogwyr a rhwystrau i graffu'r BGLl yn effeithiol.

2.2 Roedd adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a CfPS[2] yn 2010 gyda'r teitl "Sgriwtini Partneriaethau Aml-Asiantaethol" yn amlinellu rhai o'r gwersi a ddysgwyd o ddatblygu trefniadau craffu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn nodi rhai pwyntiau pwysig i'w cadw mewn cof pan yn datblygu trefniadau.

- Pwysigrwydd cymryd i ystyriaeth systemau craffu neu atebolrwydd sydd wedi eu sefydlu eisoes gan bartneriaid eraill. Dylai trosolwg a chraffu ategu yn hytrach na dyblygu'r systemau atebolrwydd presennol.

[1] Cyfeirnod yr adroddiad.

[2] Y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus- sefydliad gyda'i brif ffocws ar sgriwtini, atebolrwydd a llywodraethu da yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyllid cyhoeddus.

- Eglurder o ran sgôp gweithgaredd craffu – y bydd craffu yn canolbwyntio ar y bartneriaeth yn hytrach nag ar y sefydliadau unigol sydd yn y bartneriaeth; sydd yn strategol yn hytrach nag yn weithredol, a'i fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

- Mae'n bwysig rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n gwneud y gwaith craffu a'r rhai sy'n cael eu craffu ac i adeiladu, cynnal a datblygu ymhellach yr ymddiriedaeth rhwng craffwyr a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Ceisio cael adborth gan bartneriaid a chael ein gweld yn gweithredu arno - mae hyn yn dangos bod y broses craffu yn barod i fod yn hyblyg ac i weithio gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu'n gynhyrchiol o fewn craffu.

- Bod yn ymwybodol o'r cyd-destun y mae craffu'n gweithredu oddi mewn iddo - mae angen bod yn sensitif i newidiadau mewn deinameg partneriaethau a sut y gall craffu helpu neu waethygu'r rhain. Fe all fod risgiau ynghlwm wrth gynnal ymarferion craffu heriol yn rhy fuan, cyn bod perthnasau wedi eu sefydlu a heb i rai sy'n cymryd rhan yn y craffu fod wedi prynu i mewn yn llawn i hynny.

- Y pwysigrwydd o adeiladu perthnasau gyda phartneriaid all fod yn destun craffu. Cymryd amser i egluro rôl craffu i bartneriaid a sut y gall y broses ein helpu â hyn.

2.3 Er mwyn bod mewn sefyllfa i roi cyngor i'r Aelodau ar opsiynau posibl i graffu BGLl Gwynedd a Môn, mae Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen aml-asiantaethol wedi cael ei sefydlu. Mae'r aelodau wedi cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Swyddogion Craffu o'r ddau Gyngor. Er mwyn cael persbectif annibynnol, fe wahoddwyd y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus hefyd i wneud sylwadau a rhoi mewnbwn ar yr ystod o opsiynau i'w hystyried gan yr Aelodau Etholedig yn y ddau Awdurdod Lleol. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen hefyd wedi ceisio cael safbwyntiau Medrwn Môn a Mantell Gwynedd fel y sefydliadau ambarél sy'n cynrychioli diddordebau'r Sector Gwirfoddol.

2.4 Yng ngoleuni ei drafodaethau, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol a'r Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus yn cynnig bod yna dri opsiwn i Aelodau Etholedig eu hystyried ac y gellir eu crynhoi fel a ganlyn :-

- **Opsiwn A** – Cadw'r trefniadau Pwyllgor Craffu presennol yng Nghyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.
- **Opsiwn B** – Sefydlu Panel Craffu BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd.
- **Opsiwn C** – Sefydlu Pwyllgor Craffu BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd.

2.5 Y mae i bob opsiwn ei gryfderau, ei wendidau, cyfleon a bygythiadau ei hun. Er mwyn rhoi digon o wybodaeth i Aelodau Etholedig i wneud penderfyniad ar y

ffordd ymlaen, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol yn credu ei bod yn bwysig i ddwyn sylw'r Aelodau Etholedig at bapur gwerthuso opsiynau. Mae'r papur hwnnw ynghlwm fel **Atodiad 1**.

2.6 Er bod i bob opsiwn ei fanteision a'i anfanteision ei hun, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol yn unfrydol ei farn y dylid cynnig Opsiwn B (sefydlu Panel Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn ar y Cyd) fel yr opsiwn a ffefrir i'w ystyried gan Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

2.7 Gan ddibynnu ar ba opsiwn gaiff ei gefnogi gan Aelodau Etholedig y ddwy Sir, y cam nesaf fydd i'r Grŵp Tasg a Gorffen aml-asiantaethol ailymgynnull i ystyried trefniadau ymarferol fel aelodaeth y Fforwm Craffu ar y Cyd, trefniadau gweithredu a hyfforddi, y rhestr o gyfarfodydd a lleoliad. Bydd y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus yn darparu cefnogaeth a gwasanaeth mentora wrth i ni symud ymlaen i weithredu'r trefniadau craffu ar y cyd arfaethedig.

2.8 Gyda golwg ar sicrhau y bydd digon o wybodaeth ar gael fel y gall Aelodau Etholedig wneud argymhelliad gwybodus ar y model craffu ar y cyd a ffefrir, mae **Atodiad 2** yr adroddiad hwn yn crynhoi rhai o'r materion allweddol yn ymwneud â'r manylion sy'n sylfaen i Opsiwn B (sefydlu Panel Craffu BGLl Gwynedd a Môn ar y Cyd) :-

- Aelodau;
- Trefniadau Llywodraethu ac adrodd yn ôl;
- Amlder y cyfarfodydd.

| |
|---|
| **ATODIAD 1 - PAPUR GWERTHUSO OPSIYNAU** |
| **ATODIAD 2- MATERION ALLWEDDOL SY'N SYLFAEN I OPSIWN B** |

Adroddiad ar y Cyd gan: Anwen Davies (Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd), Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn)

Dyddiedig : 2 Ionawr 2015

# ATODIAD 1

**OPSIWN A : CADW'R TREFNIADAU PWYLLGOR CRAFFU CYFREDOL YNG NGHYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN**

<table>
<tr><th colspan="2"><u>DADANSODDIAD SWOT</u></th></tr>
<tr><td><u>Cryfderau</u><ul><li>Y Strwythur yn ei le.</li><li>Aelodau a Swyddogion yn gyfarwydd â phrosesau eu Cynghorau eu hunain.</li><li>Gall y ddau Bwyllgor Craffu wneud eu hargymhellion eu hunain i BGLl.</li></ul></td><td><u>Gwendidau</u><ul><li>Dyblygu gwaith gan ddau Gyngor.</li><li>Byddai’n rhaid i bartneriaid fynychu dau Bwyllgor Craffu.</li><li>Capasiti i graffu’r BGLl yn gyfyngedig oherwydd llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu presennol.</li><li>Aelodau Etholedig Llywodraeth Leol sy’n arwain craffu (dim neu lai o fewnbwn gan bartneriaid eraill).</li></ul></td></tr>
<tr><td><u>Cyfleon</u><ul><li>Gallai’r ddau Bwyllgor Craffu cyfredol gyfarfod gyda’i gilydd i ystyried materion ond gan wneud eu hargymhellion eu hunain ar wahân i’r BGLl neu bartneriaid ond byddai angen datblygu hyn ymhellach.</li></ul></td><td><u>Bygythiadau</u><ul><li>Beirniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru am effeithlonrwydd y model.</li><li>Beirniadaeth Llywodraeth Cymru oherwydd methiant i gydweithio.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">OPSIWN B : SEFYDLU PANEL CRAFFU BGLl GWYNEDD A MÔN AR Y CYD<br><u>DADANSODDIAD SWOT</u></th></tr>
<tr><td><u>Cryfderau</u><br>• Dim dyblygu<br>• Ni fyddai raid i bartneriaid a swyddogion y BGLl ond adrodd yn ôl i un Panel.<br>• Byddai gan y Panel fwy o gapasiti gan mai ei unig orchwyl fyddai craffu'r BGLl.<br>• Byddai'r Panel yn gallu cyfethol Aelodau.<br>• Dim yn cael ei lyffetheirio gan faterion cyfansoddiadol ac yn gallu gweithredu'n fwy hyblyg.<br>• Yn gallu galw tystion i mewn.<br>• Byddai angen sefydlu cylch gorchwyl y Panel.<br>• Tystiolaeth i ddangos bod panelau wedi bod yn fwy llwyddiannus na strwythurau eraill yn cryfhau atebolrwydd BGLlau.</td>
<td><u>Gwendidau</u><br>• Oedi gyda delio ag argymhelliad(ion) y Panel pe na bai aelodau'r panel yn gyfforddus o ran adrodd argymhellion i Bwyllgorau Craffu i'w cymeradwyo'n gyntaf cyn cael eu hanfon ymlaen i BGLl / Partner.<br>• Nifer llai o aelodau etholedig o bob awdurdod.</td></tr>
<tr><td><u>Cyfleon</u><br>• Byddai'r Panel yn datblygu rôl arbenigol o ran craffu'r BGLl.<br>• Byddai grŵp/panel llai yn arwain at amgylchedd mwy anffurfiol lle y byddai gwell craffu felly yn esblygu gyda ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na strwythurau.<br>• Byddai'n gallu ystyried craffu asiantaethau a chyrff y tu allan i ffiniau'r sir (pe bai hyn yn dod yn anghenraid yn y dyfodol).<br>• Gallai aelodau cyfetholedig helpu i leihau datgymalu sefydliadol ar draws ardaloedd blaenoriaeth BGLl.<br>• Gallai Aelodau Cyfetholedig helpu i atgyfnerthu gweithio ar y cyd.</td>
<td><u>Bygythiadau</u><br>• Dim digon o adnoddau wedi eu dyrannu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r Panel.<br>• Dim digon o fewnbwn gan aelodau (awdurdod lleol neu gyfetholedig) i'r trefniadau craffu.<br>• Gallai Pwyllgorau Craffu fethu â chymeradwyo argymhellion y Panel pe bai hyn yn anghenraid.<br>• Y cylch gorchwyl heb fod yn glir a heb ei ddeall.</td></tr>
</table>

| **OPSIWN C : SEFYDLU PWYLLGOR CRAFFU BGLl GWYNEDD A MÔN AR Y CYD**<br><br>**DADANSODDIAD SWOT** | |
|---|---|
| Cryfderau<br>• Byddai'r Pwyllgor yn gallu gwneud argymhellion i bob Cyngor a phartneriaid. Mae cydweithredu ffurfiol yn bosibl o dan Adran 58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn cael ei annog gan Lywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, rhaid cael cytundeb ffurfiol rhwng Cynghorau i gael Pwyllgor Craffu ar y cyd. Mae'r gofynion wedi eu nodi yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini ar y Cyd) (Cymru) 2013 rhif 1050 (W-112).<br>• Dim dyblygu<br>• Ni fyddai raid i bartneriaid a swyddogion yn y BGLl ond adrodd yn ôl i un Pwyllgor.<br>• Byddai gan y Pwyllgor fwy o gapasiti gan mai ei unig ddyletswydd fyddai craffu'r BGLl.<br>• Byddai'r Pwyllgor yn gallu cyfethol aelodaeth. | Gwendidau<br>• Trefniant ffurfiol mewn amgylchedd ffurfiol, dim yr amgylchedd gorau ar gyfer trefniadau craffu da.<br>• Cost – adnoddau o ran amser ac arian.<br>• A fyddai yna ddigon o waith ar gyfer Pwyllgor ychwanegol.<br>• Cael ei lyffetheirio gan reoliadau cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â phwyllgorau craffu ar y cyd ffurfiol a dim â'r gallu i fod mor hyblyg.<br>• Gwaith ychwanegol i'r ddau awdurdod. |
| Cyfleon<br>• Byddai'r Pwyllgor yn datblygu rôl arbenigol yn craffu'r BGLl. | Bygythiadau<br>• Dim digon o adnoddau wedi eu dyrannu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r Pwyllgor Craffu ar y cyd. |

# ATODIAD 2

**Aelodaeth**

Mae gwahanol opsiynau ar gael wrth ystyried aelodaeth y Panel Craffu BGLl. Ystyrir ei fod yn arfer gorau, fodd bynnag, bod Panel o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau partneriaeth. Bydd cynrychiolwyr o'r partneriaid yn dod â gwahanol gyfraniad ac agwedd at y Bwrdd, yn cynnwys eu ffurf benodol hwy o atebolrwydd ac arbenigedd gwasanaeth a phroffesiynol unigryw. Yr amcan yw creu synergedd cryf trwy gyfuno ac adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â rhwystrau lle y gallant fodoli. Cynigir yr aelodaeth a ganlyn sy'n seiliedig ar arfer dda :-

- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Gwynedd nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 3 Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ynys Môn nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith
- 1 wedi'i enwebu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 1 wedi'i enwebu o Heddlu Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- 1 wedi'i enwebu o Mantell Gwynedd
- 1 wedi'i enwebu o Medrwn Môn.

**Trefniadau Llywodraethu ac Adrodd yn ôl**

Er mai un o brif gryfderau'r model hwn yw ei hyblygrwydd a'i fod yn rhydd o nifer o rwystrau cyfansoddiadol. Mae angen cwblhau gwaith pellach er mwyn datblygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl yn llawn ar gyfer y Panel Craffu arfaethedig. Bydd y canllawiau isod yn sylfaen i'r trefniadau hyn :-

- Darparu her 'ffrind beirniadol' i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Craffu, gwerthuso a hyrwyddo yn weithredol welliant mewn gwaith a wneir yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac nid rhai'r sefydliadau unigol sy'n rhan o'r Bwrdd ac sy'n cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Craffu, gwerthuso a bod yn weithredol yn hyrwyddo gwelliant o ran datblygu a gweithredu prosiectau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Cyflwyno adroddiadau i'r partneriaid neu'r BGLl (fel bydd yn briodol) a gwneud argymhellion ar fesurau all wella effaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Adlewyrchu llais a phryderon dinasyddion a chymunedau yng Ngwynedd a Môn.

**Amlder y Cyfarfodydd**

Bwriedir y bydd cyfarfodydd o'r Panel yn cael eu galw yn 6 misol. Fodd bynnag, bydd angen cael rhywfaint o hyblygrwydd wrth i siwrnai drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol esblygu e.e. efallai y bydd aelodau'r Panel yn dymuno ystyried materion ar sail ad-hoc.